COFNODION

PBC SG4, 20fed Chwefror, Broneirion

Yn bresennol	Sefydliad
P. Graham Oliver	Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Aethne Cooke	CCGC
Amy Mulkern (yn cyflwyno papur)	Partneriaethau Bywyd Gwyllt Cymru, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru
Bill Somerfield (yn cyflwyno papur)	LlCC (Ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi PBC)
Blaise Bullimore (yn rhoi cyflwyniad)	EMS Bae ac Aberoedd Caerfyrddin
Cliff Benson	Ymddiriedolaeth y Môr
David Parker	CCCG
Diana Reynolds	LlCC (Ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi PBC)
Dori Gomez- Levit	Rhwydwaith Arena Cymru
Emma Durward	Swyddog Bioamrywiaeth, CS Powys
Gareth Ellis (yn cyflwyno papur)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Bannau Brycheiniog/ Ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi PBC
Hazel Drewett	CCGC
Ian Guildford (yn cyflwyno papur)	PAW
Jennifer Dack	Asiantaeth yr Amgylchedd
Julia Korn (yn cyflwyno papur)	LlCC (Ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi PBC)
Lia Moutselou (yn cyflwyno papur)	WCMP
Liz Howe (yn cyflwyno papur)	CCGC
Michelle Bromley	Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Nigel Ajax Lewis	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
Philip Trembath (yn cyflwyno papur)	Rhwydwaith Arena Cymru
Rod Gritten	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Roy Tapping	COFNOD
Russel Hobson (yn rhoi cyflwyniad)	Cadwraeth Gloÿnnod Byw Cymru
Sean McHugh (yn cyflwyno papur)	LlCC (Ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi PBC)
Steve Moon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont
Steven Bromley	Groundwork Wales
Stuart Moodie	Afonydd Prydain
Tim Stowe	RSPB
Tom Lunn (yn cyflwyno papur)	Rhwydwaith Arena
Trevor Dines	Plantlife

Ymddiheuriadau		
Peter Birch	Afonydd Prydain	Stuart Moodie yn dirprwyo iddo
Prof Michael Bruford	Prifysgol Caerdydd	
David Jenkins	Coed Cymru	
Chris Mills	AA	Jennifer Dack yn dirprwyo iddi
Dr Glenda Thomas	FWAG Cymru	
Robin Woodyatt	CLlLC	
David Cowley	Cyngor Sir Ynys Môn/CGBLl	
David Bullock	Ymddiriedolaeth Genedlaethol	
Adam Rowe	SEWBREC	
Liz Cozens	Prifysgol Abertawe	
Gaynor Ainscough	Ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi PBC	

Cyflwyniad

Diana Reynolds oedd yn cadeirio'r cyfarfod ac estynnodd groeso i'r rhai oedd yn bresennol. Diolchodd i bawb am eu gwaith caled dros y misoedd diwethaf ac eglurodd ei bod yn ddirprwyo dros dro i Mike Dunn (LlCC) tra byddai ef yn gweithio ar arolwg Axis 2. Mae Diana hefyd yn gyfrifol am y rôl forwrol yn LLCC yn dilyn penodiad Ann John.

1. Gweithredu: Y Tîm Cefnogi i wahodd Mike Dunn i gyflwyno papur ar y modd y mae Axis 2 yn mynd rhagddo yn PBC SG 5 (Gorffennaf)

Gwnaeth Graham Oliver ddatganiad ynghylch yr astudiaeth sy'n edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu Amgueddfa Hanes Naturiol ar gyfer Cymru. Gellir cael rhagor o wybodaeth trwy gysylltu â Graham (graham.oliver@nmgw.ac.uk).

Cyflwyniad 1: GEMS Cymru: Grŵp o Safleoedd Morol Ewropeaidd & CGB (Blaise Bullimore)

Yng Nghymru mae 7 Safle Morol Ewropeaidd (EMS) a 2 safle ymgeisio. Roedd adroddiadau EMS yn ystod 2006 yn dangos bod dros hanner yr holl nodweddion mewn cyflwr anfoddhaol ac yn pwysleisio bod angen cefnogaeth ariannol er mwyn cynnal y momentwm a grewyd trwy'r rheoli cynllunio. Mae ei obeithion o safbwynt EMS a BAP yn ymdebygu er bod y sefyllfa yn ymwneud â rhai rhywogaethau yn amrywio. Ar y funud, nodweddion a restrir (neu'r rhai sydd o fewn nodweddion presennol a restrir) sydd yn derbyn sylw o dan amcanion cadwraeth ac yn cael eu diogelu'n sicr o fewn EMS. Mae proses EMS a phroses BAP yn fecanweithiau defnyddiol ond mae eu llwyddiant hyd yma wedi ei gyfyngu ac mae colli cynefinoedd a dirywiad mewn cynefinoedd yn parhau yn broblem. Roedd yn rhybuddio yn erbyn 'symud y waelodlin' a gostwng lefel ein gobeithion ynghylch yr amgylchedd morol ac yn pwysleisio pwysigrwydd gweithredu eco system o fewn yr amgylchedd morol. Roedd Blaise yn croesawu'r gobeithion ar gyfer yr amgylchedd morol yn Strategaeth Amgylchedd Cymru a Dyletswydd NERC ond pwysleisiodd bod yn rhaid iddynt arwain at orfodaeth lle mae deddfwriaeth yn bodoli ac arwain hefyd at weithredu ymarferol.

Dogfennau ar achosion cyfreithiol yn ymwneud â materion Morwrol a allai fod o ddiddordeb:

http://ec.europa.eu/environment/nature/info/pubs/paper_en.htm - mae'r linc i *Nature and Bidiversity cases ruling of the European Court of Justice 2006* tua dwy ran o dair y ffordd i lawr y dudalen.

Gellir gweld achosion cyfreithiol Natural England ar safleoedd Natura 2000 yn http://naturalengland.communisis.com/NaturalEnglandShop/product.aspx?ProductID=dd60b4c6-281b-4f17-a43a-1df1c38c449f
Mae papur abstract Gwyddoniaeth diweddar yn - http://www.sciencemag.org/cgi/content/abstract/319/5865/948 - cyfyngir mynediad at y

papur ei hun i danysgrifwyr ac ysgrifenyddiaeth/ tïm cefnogi PBC. Fodd bynnag, mae gan brifysgol yr awdur arweiniol dudalennau gwefan yn dsisgrifio'r gwaith yn - http://www.nceas.ucsb.edu/GlobalMarine

Trafodaeth: Safleoedd Morol Ewropeaidd yng Nghymru

Sut mae deddfwriaeth bresennol yn cynorthwyo safleoedd morol? Tanlinellodd Blaise anomali yn y ddeddfwriaeth lle gellir niweidio cynefin/rhywogaeth ond oherwydd nad ydynt wedi eu rhestru fel nodwedd o'r safle nac yn amcanion cadwraethol y safle, nid oes darpariaeth ddigonol ar gyfer eu diogelu. Crybwyllodd David Parker mai Stadau'r Goron yw perchnogion gwely'r môr ac y dylid eu hatgoffa am eu dyletswyddau o dan Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Cefn Gwlad (Deddf NERC) 2006 Dyletswydd Bioamrywiaeth (Adran 40). Rhybuddiodd Blaise ynghylch y perygl y gallai partneriaethau morol golli momentwm wrth i ffrydiau cyllido gael eu torri i lawr, yn enwedig cefnogaeth ariannol i Grwpiau EMS yr Awdurdodau Perthnasol Nodwyd gan Steve Moon bod torri costau yn anorfod ymhlith Awdurdodau Lleol Cymru ac y gallai hyn arwain ar ddefnyddio gwasanaethau contract allanol. Pwysleisiwyd rôl yr PBC yn y dasg o gefnogi arweiniad ac adfocatiaeth LlCC ar safleoedd morol.

2. Gweithredu gan Bawb: Rhoi manylion unrhyw ddigwyddiadau penodol sydd yn bygwth diogelwch Safleoedd Ewropeaidd yng Nghymru i'r ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi. (Sean McHugh s.mchugh@welshwildlife.org).

3. Gweithredu: David Parker a Blaise i drafod rôl Stadau'r Goron ar ôl y cyfarfod.

Papur 2: Dyletswydd Bioamrywiaeth i Gyrff Sector Cyhoeddus a Llywodraeth Leol: cynigion ar gyfer ymweliadau adolygu cynnydd ar y cyd gan PBC/CCGC.

Cyflwynwyd y papur gan Bill Somerfield a diolchodd i Joanna Robertson (CCGC) oedd yn methu â bod yn bresennol er mai hi oedd wedi darparu mwyafrif cynnwys y papur. Crybwyllodd bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaladwyedd a Thai – trwy broses gyfochrog sydd yn weithredol yn y Cynulliad - wedi cytuno i arwain y broses hon. Bydd Bill yn dosbarthu'r Adroddiad Penderfyniad sydd yn atgyfnerthu ymroddiad y gweinidog i gyflawni amcanion statudol bioamrywiaeth a chadwraeth natur trwy rôl hyrwyddwr bioamrywiaeth, fel un o'r nifer o fesurau a ddefnyddir er mwyn cyrraedd y nod hwn. Mae'r Adroddiad hefyd yn amlinellu'r gofynion ar awdurdodau lleol i ddarparu digon o staff i gyflawni'r amcanion hyn. Yna tynnodd Bill sylw at yr atodiadau yn ymwneud â gorfodaeth a Chyrff Cyhoeddus oedd ynghlwm wrth y papur a gwahoddodd sylwadau. Mae'r WLGA wedi cytuno gyda chynnwys y papurau uchod ac mae LlCC hefyd wedi ysgrifennu at Benaethiaid Cynllunio Awdurdodau Lleol yn ddiweddar yn amlinellu eu dyletswyddau o dan Ddeddf NERC a rheoliadau cynefinoedd. Tynnodd Blaise Bullimore sylw at y gwaith ar lefel y DU a'r UE a allai fod o gymorth i hyrwyddo gorfodaeth.

Nodwyd pa mor bwysig yw adrodd yn ôl ar ymweliadau at hyrwyddwyr bioamrywiaeth cyn i adolygiad y Dyletswydd Bioamrywiaeth gael ei gynnal yn Hydref 2009.

4. Gweithredu gan bawb: Anfon newidiadau trac o'r rhestr gwirio Gorfodaeth (atodiad 2) a rhestr gwirio Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyrff Cyhoeddus (atodiad 1) i Bill Somerfield (william.somerfield@wales.gsi.gov.uk**) erbyn dydd Gwener 28 Mawrth fel y gall Bill fireinio'r ddogfen a threfnu i'w chyfieithu cyn ei gosod ar wefan PBC.**

5. Gweithredu: Bill Somerfield i ddosbarthu Adroddiad Penderfyniad LlCC a'r amserlen ddiweddaraf parthed rôl hyrwyddwyr bioamrywiaeth o fewn llywodraeth leol a chynnwys y llythyr a anfonwyd i'r Awdurdodau Lleol.

6. Gweithredu: Blaise Bullimore i anfon dogfennau gorfodaeth yr UE/DU a linciau gwefan i ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogol PBC ar gyfer eu dosbarthu. (Hyn wedi ei gwblhau, gweler uchod).

Pwynt Penderfyniad A: Bydd Joanna Robertson yn cydlynu ymweliadau at Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth ledled Cymru. Bydd yr ymweliadau hyn yn golygu y bydd Joanna (neu aelod arall o PBC) yn cynrychioli PBC ynghyd â staff o Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Cytunwyd y byddai aelodau o'r grŵp llywio yn sicrhau eu bod ar gael ar gyfer un neu ddau cyfarfod y flwyddyn i helpu gyda'r broses hon.

7. Gweithredu gan bawb: Dylai unrhyw wirfoddolwyr pellach ar gyfer yr ymweliadau at Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth gysylltu â Joanna Robertson (joanna.robertson@ccw.gov.uk).

8. Gweithredu: Bydd yr ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi (Delcie Simkin) yn parhau i weithio gydag Ian Guilford er mwyn cynhyrchu astudiaethau achos yn dangos yr hyn all ddigwydd wrth beidio â chydymffurfio gyda deddfwriaeth.

Papur 3: Cysylltedd Cynefinoedd/Cysylltiadau Naturiol - diweddariad

Liz Howe oedd yn cyflwyno'r papur a rhoddodd fanylion menter ariannu byrddau prosiect gan DEFRA - bydd y gefnogaeth ariannol o gymorth i'r broses hon a chaiff adroddiad ei gyhoeddi ym mis Mai 2008. Jim Latham (CCGC) sydd yn cynrychioli Cymru ar y bwrdd prosiect. Amlinellwyd hefyd fenter newydd sef 'Diweddariad Cam 1' ('Phase 1 update') – prosiect synhwyro o bell gyda'r gallu i fapio cynefinoedd o'r awyr. Holodd Tim Stowe os mai'r strategaeth cysylltiadau naturiol wedi eu cynllunio oedd y dull gorau ar gyfer rhywogaethau yng ngoleuni canfyddiadau ymchwil a gofynnodd os oedd gennym gynllun wrth gefn, er enghraifft traws leoli rhywogaethau neu wneud safleoedd presennol yn fwy hydwyth. Codwyd materion cysylltedd morol gan fod data

gwaelodlin ar gyfer cysylltedd yr amgylchedd daearol ymhell ar y blaen i'r cysylltedd hwn.

Pwynt Penderfyniad B: O ystyried y pryderon cytunwyd i gyfyngu gweithredu cysylltedd yng Nghymru o safbwynt y camau gweithredu canlynol.

9. Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi (Julia Korn) i wahodd CCGC i gyflwyno cyflwyniad 'Diweddariad Cam 1' yn PBC SG5 neu mewn cyfarfod ymhellach ymlaen.

10. Gweithredu: Liz Howe i ddosbarthu Adroddiad DEFRA pan fydd yn barod er mwyn derbyn sylwadau arno.

11. Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi (Julia Korn) i wahodd CCGC i gyflwyno diweddariad yn cynnwys sylwadau a nodir yng Nghamau Gweithredu 9 a 10 yn PBC SG6 (Tach)

Papur 4: Diweddariad CGB – Grwpio Cynefinoedd, Arolwg CGBLI

Roedd pwyllgor sefydlog y DU wedi gwneud cais am i Grwpiau Bioamrywiaeth Gwladol sefydlu grwpiau cynefinoedd gwladol a derbyniwyd cynigion drafft yn y cyfarfod Adroddiadau a Gwybodaeth Bioamrywiaeth (BRIG). Yn y cyfarfod hwnnw awgrymwyd hefyd grwpiau ar lefel y DU – byddai'r rhai hyn fwy neu lai yn dilyn y ffurf a fwriedir ar gyfer y grwpiau arfaethedig yng Nghymru. Tynnwyd sylw at y diffyg ymwybyddiaeth o'r grŵp morol.

Pwynt Penderfyniad C. Derbyn y syniad o grwpio cynefinoedd a Liz Howe i lunio rhai diwygiadau.

12. Gweithredu: Aethne Cooke i ddarparu gwybodaeth ar y grŵp morol i'r WCMP.

13. Gweithredu: Diana Reynolds i archwilio'r posibilrwydd o gael y Cynulliad i arwain y grŵp morol.

14. Gweithredu: Liz Howe i wneud y newidiadau terfynol i'r rhestr grwpiau cynefinoedd ac yna ail ddosbarthu'r rhestr.

Mae'r dyddiad olaf newydd i BRIG gyflwyno adroddiad ar y dasg o lunio camau gweithredu ar gyfer rhywogaethau blaenoriaeth wedi ei ohirio hyd ddiwedd Chwefror. Bydd cynlluniau gweithredu rhywogaethau unigol yn parhau mewn bodolaeth ac mae

gwaith grwpio cynefinoedd cyffelyb wedi ei gwblhau gan Grŵp Bioamrywiaeth Lloegr . Gallai hwn fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer y grŵp tasg a gorffen.

15. Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi (Julia Korn)i ddosbarthu adroddiad Grŵp Bioamrywiaeth Lloegr i'r Grŵp Tasg a Gorffen.

Pwynt Penderfyniad D: Penderfynwyd defnyddio'r Grŵp Tasg a Gorffen S42 presennol fel sail ar gyfer grŵp tasg a gorffen CGB Cymru ac i wneud cais am wirfoddolwyr newydd yn cynnwys unigolyn gyda phrofiad mewn polisi. Julia Korn fydd yn gweinyddu.

16. Gweithredu gan bawb: Cysylltu â Julia Korn erbyn dydd Gwener 28 Mawrth os byddant yn dymuno gwirfoddoli i fod yn aelod o grŵp tasg a gorffen CGB Cymru (j.korn@ccw.gov.uk**)**

Mae Atodiad H o Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru (Adran 1) ac adolygiad pwyntiau bwled CGBLl yr PBC yn parhau i fod yn ganllawiau ar gyfer adolygiad CGBLl. Mae Atodiad H ar y funud yn cael ei ddiweddaru a bydd ar gael ar wefan WPB ym mis Mawrth. Yna yn ystod y gwanwyn fe gyhoeddir fersiwn fformat canllawiau o Adran 1.

Bydd Gareth Ellis a David Cowley yn cymryd drosodd yn ystod cyfnod mamolaeth Juliet Hynes ac yn cynnig cefnogaeth dechnegol BARS i Grwpiau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (ac i bartneriaid eraill lle bo hynny'n addas) yn absenoldeb Julie. Eu rôl allweddol hwy fydd helpu Swyddogion CGBLl i osod eu CGBLl ar BARS fel rhan o'r broses adolygu.

Pwynt Penderfyniad E: Cafodd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol eu cydnabod yn ffurfiol gan PBC fel mecanwaith allweddol ar gyfer cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth diwygiedig yng Nghymru.

17. Gweithredu: Julia Korn i ddosbarthu Atodiad H diwygiedig i bawb pan gwblheir ef.

Papur 5 Defnyddio BARS gan sefydliadau a llywodraeth yng Nghymru

Mae CCGC wedi cynhyrchu cytundeb gweithredol drafft i arddangos sut y maent yn bwriadu poblogeiddio BARS a gwneud y wybodaeth yn hysbys i bartneriaid ar bob lefel. Caiff y cytundeb hwn ei gyflwyno i gyfarfod yr uwch reolwyr maes o law i'w gymeradwyo ganddynt. Bydd cyfarfod cyntaf Grŵp Tasg a Gorffen BARS y Cyngor Cefn Gwlad yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf a'r bwriad yw datblygu'r prosiect hwn fesul rhan gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar feysydd gwaith penodol megis rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a grantiau. Nodwyd gan Jennifer Dack bod gan AA gynllun BARS drafft a'u bod wedi ymrwymo i strategaeth BARS. Yn y lle

cyntaf bydd AA yn canolbwyntio ar weithgareddau lle maent hwy yn bartner arweiniol, ac yn tymor hirach byddant yn ymgymryd â gweithgareddau mwy pell gyrhaeddol sydd yn ymwneud â bioamrywiaeth. Dywedodd Michelle Bromley y byddai cynllun ac amserlen BARS y Comisiwn Coedwigaeth wedi ei sefydlu yn ddiweddarach yn y flwyddyn hon. Byddai prosiectau newydd CCC wedi eu rhestru ar BARS. Nododd Cliff Benson yr anhawster a gafodd grwpiau bach gwirfoddol wrth ddefnyddio BARS a hynny oherwydd materion yn ymwneud â gallu a thechnoleg. Gallai grantiau bach, wedi eu targedu tuag at sefydliadau llai a chofnodwyr unigol, hwyluso'r dasg o ddefnyddio BARS.

18. Gweithredu: **David Parker i adrodd yn ôl i PBC ar grantiau ar gyfer defnyddio data CCGC.**

19. Gweithredu: Julia Korn i ymgorffori gofynion BARS 'sefydliadau llai' o fewn y cynllun cyfan.

Mae trafodaethau a chamau ar gyfer rhoi gwybodaeth am Dir Gofal ar BARS yn mynd rhagddynt. Nid oedd yn bosibl ar y pryd adrodd ar unrhyw gamau gweithredu unigol oherwydd logisteg a gofynion diogelu data, ond byddai diweddariadau yn cael eu cyhoeddi, bob chwe mis o bosibl. Dywedodd Tim Stowe y byddai RSPB yn diweddaru ar lefel Cymru (a'r DU) o fis Mawrth ymlaen. Nodwyd gan Michelle Bromley eu bod ar y funud yn rhoi Cynllun Grant Gwella Coedlannau Cymru ar BARS. Gellid defnyddio cytundeb gweithredol BARS CCGC fel templed i sefydliadau eraill ei addasu ar gyfer eu defnydd hwy eu hunain ohono.

Pwynt Penderfyniad F: Cafodd dull BARS sefydliadau sy'n bartneriaid PBC ei gymeradwyo.
Pwynt Penderfyniad G: Mae fersiwn drafft cytundeb gweithredol BARS y Cyngor Cefn Gwlad yn aros am argymhelliad terfynol gan Fwrdd CCGC.
Pwynt Penderfyniad H: Cytunwyd ar amserlen ar gyfer cyfranogiad y gwahanol sefydliadau.
20. Gweithredu: Gofynnir i sefydliadau a restrir uchod ddarparu adroddiad ac amserlen ar eu dulliau gweithredu ar gyfer BARS erbyn PBC SG6 ym mis Tachwedd.

Papur 6: Materion yn ymwneud â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

Tanlinellodd Gareth Ellis y bwlch gweithredol o fewn datblygu cynaladwy lle gadewir bioamrwiaeth yn aml oddi ar yr agenda, a phwysleisiodd y byddai o fudd i bartneriaethau CGBLl weithredu er mwyn cywiro'r cam hwn. Nodwyd gan Diana Reynolds y dylai adroddiad penderfyniad LlCC ac argymhelliad NERC fod o gymorth – sef bod hyrwyddwr Datblygu Cynaladwy awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r Hyrwyddwr Bioamrywiaeth enwebedig. Mae newid hinsawdd yn fan cychwyn defnyddiol i symud bioamrywiaeth ymlaen o fewn y fframwaith datblygu cynaladwy.

21. Gweithredu: Diana Reynolds i gysylltu gyda thïm cyfathrebu Newid Hinsawdd LlCC er mwyn cadarnhau'r achos am negeseuon bioamrywiaeth.

Yna soniodd Gareth am y diffygion a'r angen am ddiweddaru data gwaelodlin cynefinoedd gan fod hyn yn rhwystro ymdrechion i osod targedau realistig ar gyfer cynefinoedd CGBLl ac i archwilio opsiynau cysylltedd yn yr adolygiad cyfredol. Roedd Liz Howe yn cydnabod nad oedd y sylw a roed i Cam 1 yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig o safbwynt y newid cyflym mewn defnydd tir. Crybwyllodd Liz bod data Cam 1 yn ddigidol ac y gallai CCGC ddarparu algorithm a fyddai'n ei gwneud yn bosibl trosi cynefinoedd Cam 1 i gynefinoedd CGB ar sail Cymru gyfan, ac awgrymwyd astudiaeth peilot.

22. Gweithredu: Bydd y Cyngor Cefn Gwlad yn peilotio menter trosi Cam 1. Gareth Ellis i adnabod meysydd peilot addas.

Mae 'Diweddariad Cam 1' sef y prosiect mapio cynefinoedd o bell ar y funud yn cael ei ddatblygu gan CCGC (Alan Brown). Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn addawol a gellir disgwyl adroddiad ym mis Mawrth.

23. Gweithredu: Julia Korn i wahodd Alan Brown i roi cyflwyniad mewn cyfarfod o PBC SG maes o law.

Mae CCCC yn gweithio ar ddiweddaru Cam 1 gan sicrhau y bydd yn cynnwys mapio gwrtholygol er mwyn cofnodi colli/ennill coetiroedd. Cynigiodd Roy Tapping gymorth gyda sefydlu trosydd algorithm a'i dreialu yng Ngogledd Cymru.

24. Gweithredu: Roy Tapping i gysylltu gydag adran ddata CCC (Vicki West) er mwyn cynorthwyo gyda gofynion technegol yr algorithm trosi cynefinoedd.

Papur 7: Cyflwyniadau Grwpiau Tacsonomig – eglurhad ar yr eitem agenda reolaidd newydd hon.

Eglurodd Bill Somerfield y cysyniad a gwahoddodd Russel Hobson i gyflwyno'r cyflwyniad agoriadol ar sail Lepidoptera.

Cyflwyniad 2: Grŵp Tacsonomig – Gloÿnnod Byw (Russel Hobson)

Mae gan Gadwraeth Gloÿnnod Byw dri gweithiwr llawn amser ac un gweithiwr rhan amser a thros 400 o aelodau yng Nghymru. Mae'r corff yn derbyn arian gan CCGC ac mae ganddo nifer fawr o wirfoddolwyr sydd yn cynnal prosiectau.
Pwysleisiodd Russel y ffaith bod elfen wirfoddol gref, gweithio mewn partneriaeth a chyllid parhaol yn hanfodol er mwyn cwblhau amcanion cadwraeth. Rheolau ariannu, yn

hytrach na ffynonellau ariannu, oedd yn rhwystro gweithredu uniongyrchol yn ymwneud â chadwraeth natur uniongyrchol. Roedd heriau pellach a nodwyd yn y cyflwyniad yn cynnwys dirywiad y cynlluniau amaeth-amgylcheddol a mabwysiadu Dangosydd Gloÿnnod Byw er mwyn asesu perfformiad.

25. Gweithredu: Bydd yr ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi yn archwilio'r posibilrwydd o gael Swyddog Cyllido ar gyfer Cymru gyfan, i weithio yn bennaf gyda darparwyr cyllid.

26. Gweithredu: Jennifer Dack a Michelle Bromley i anfon manylion cyswllt y staff ariannu allanol o fewn eu sefydliad penodol i'r ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi.

27. Gweithredu: **Tim Stowe i fynychu cyfarfod cyllido HLF ar 27ain Mawrth (Julia Korn i anfon manylion i Tim).**

Yna tynnodd Russel sylw at yr 'Adroddiad Sefyllfa Gloÿnnod Byw Cymru' ac amlinellodd rai prosiectau gweithredol yng Nghymru. Dywedodd wrth PBC bod y cynllun gweithredu Gloÿnnod Byw a Gwyfynod presennol ar gyfer Cymru yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni'r rhestr S42 newydd.
Talodd Cliff Benson deyrnged i'r gwaith sydd yn cael ei wneud. Holodd David Parker ynghylch sefyllfa gwyfynod a gwnaeth sylw ar yr adroddiad am ddirywiad o 90%, sydd wedi ei gefnogi gan dystiolaeth Steve Moon o gofnodion Morgannwg. Dywedodd Russel nad oedd data gwaelodlin ar gyfer gwyfynod ond y byddai prosiect HLF sef 'Cyfrif Gwyfynod' o gymorth yn hyn o beth.

28. Gweithredu: Russel i gysylltu gyda chofnodwyr Gwyfynod Morgannwg er mwyn cael eu data gwyfynod.

Pwynt Penderfyniad I: Camau gweithredu cyllido wedi eu cytuno.

29. Gweithredu. Sean McHugh i siarad gyda Russel er mwyn hwyluso'r elfen gyllido a sicrhau y caiff unrhyw arian dros ben ei ddefnyddio yn uniongyrchol ar gyfer cadwraeth natur.

Pwynt Penderfyniad J: Cytunwyd ar fformat y cyflwyniad fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd PBC SG.

Pwynt Penderfyniad K: Cetaceaid a Ffwng wedi eu cynnig fel testun y cyflwyniad nesaf.

30. Gweithredu: Sean McHugh i gysylltu â Cliff Benson (Cetaceaid) a Ray Wood (Ffwng) ar gyfer cyflwyniadau grwpiau tacsomonig yn y dyfodol..

Papur 10: Diweddariad ar y Polisi a'r Mesur Morol

Cyflwynwyd diweddariad ar y cynnydd a wnaed gyda'r mesur morol drafft. Mae'r eitemau adawyd allan o'r mesur drafft – gan gynnwys rheoli pysgodfeydd y glannau a mynediad i'r arfordir – yn debygol o gael eu cynnwys yn y mesur terfynol.

Yna cyflwynodd Lia Moutselou y wybodaeth ddiweddaraf i PBC ar rôl a dyletswyddau Partneriaeth Arfordirol a Morol Cymru (WCMP). Mae WCMP yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol anstatudol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae gwybodaeth bellach a chyfeiriadau i'w canfod ar wefan WCMP. Ceir aelodaeth trwy bwyllgor dethol ac mae'n cynnwys cyfranddeiliaid allweddol yng Nghymru ac hefyd y sectorau pysgota a busnes. Mae Steve Moon yn aelod o WCMP a bydd ef yn rhoi diweddariad i PBC ar y cynnydd a wneir. Bydd Lia yn cyflwyno diweddariad yn flynyddol i PBC.

31. Gweithredu: Steve Moon i gynrychioli WCMP yng nghyfarfodydd PBC SG trwy gyfrwng eitem reolaidd ar yr agenda.
32. Gweithredu. Ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi i wahodd Lia i PBC SG7 (Chwef. 09).

Papur 11: Busnes a Bioamrywiaeth – dull o gynnwys busnesau yng Nghymru

Amlinellodd Philip Trembath waith Arena Cymru a'r rôl y mae'n ei rhannu gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn datblygu systemau EMS ar gyfer busnes. Mae ugain o gydlynwyr busnes wedi eu lleoli yng Nghymru ac un cydlynydd busnes bioamrywiaeth ar gyfer Cymru gyfan (Tom Lunn) a'i rôl ef yw integreiddio bioamrywiaeth i arferion busnes. Mae'r fenter yn ymwneud â manteision bioamrywiaeth i stadau busnes ond mae hefyd yn cynnwys addasiadau perthnasol gan fusnesau a hynny er budd bioamrywiaeth. Amlinellodd Amy Mulkern rôl yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn y dasg o gynnwys busnesau, mae'r cynllun wedi ei sefydlu ers blwyddyn ac mae'n prysur gynyddu. Caiff cynllun amgylcheddol Y Ddraig Werdd ei reoli gan Arena; bydd Arena yn sicrhau bod eu cydlynwyr yn derbyn cyfarwyddyd ar y cynllun a bydd archwilio proffesiynol yn sicrhau cysondeb ac yn rhwystro 'gwyrdd-olchi'. Gallai PBC fod o gymorth i Arena o safbwynt ymholiadau technegol yn ymwneud â bioamrywiaeth.

33. Gweithredu: Bydd David Parker/Diana Reynolds yn cysylltu gydag Arena (Philip Trembath) er mwyn asesu cryfder y ddarpariaeth bioamrywiaeth yng nghynllun Y Ddraig Werdd.

Pwynt Penderfyniad L: Cafodd egwyddor aelodaeth PBC ar gyfer busnesau ei gymeradwyo ond teimlid bod angen rhagor o drafodaeth er mwyn sicrhau priodoldeb.

Ni symudwyd ymlaen gyda'r pwyntiau penderfyniad eraill gan ddewis aros hyd nes y cyflwynir papur strategaeth Busnes a Bioamrywiaeth yng Ngorffennaf, yn trafod meini prawf posibl ar gyfer aelodaeth busnesau gyda PBC.

Pwynt Penderfyniad M: Cytunwyd i sefydlu Fforwm Busnes a Bioamrywiaeth yn cynnwys Arena, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt ac aelodau eraill i gynorthwyo gyda'r broses hon.

34. Gweithredu: Rhwydwaith Arena Cymru, gyda mewnbwn gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru (Amy Mulkern), i lunio papur strategaeth ar gyfer PBC SG 5 (Gorffennaf).

Papur 12 PBC Cynllunio

Cyflwynodd Sean McHugh ddiweddariad i PBC ar nwyddau a chynllun gweithredu ar gyfer Wythnos Bioamrywiaeth Cymru (WBC) 2008 (7fed – 15fed Mehefin). Yna gwnaeth gais am i sefydliadau sy'n bartneriaid gynnal digwyddiadau ac anfon manylion at y CGBLl perthnasol/Sean McHugh ar gyfer cyhoeddusrwydd. Er mwyn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer 2009 mae'n ofynnol pennu dyddiad ar gyfer WBC.

35. Gweithredu: Sean McHugh i drefnu dyddiadau ar gyfer WBC 2009 ar gyfer SG5 (Gorffennaf)

Pwynt Penderfyniad N: Sefydliadau sy'n bartneriaid yn cytuno i ddosbarthu dyddiad WBC i'w rhwydweithiau.
Pwynt Penderfyniad O: Sefydliadau sy'n bartneriaid yn cytuno i gynnal/gydlynu digwyddiadau gyda Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.
Penderfyniad P: Sefydliadau sy'n bartneriaid yn cytuno i ddosbarthu rhestrau o ddigwyddiadau er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd iddynt.

Yna amlinellodd Sean ddewisiadau cynhadledd PBC yn Aberystwyth a phwysleisiodd yr ansicrwydd yn DEFRA ynghylch y digwyddiad undydd arfaethedig (9fed Medi) cyn Cynhadledd Cymru (10fed & 11eg Medi). Roedd y farn a fynegwyd yn y cyfarfod yn nodi y byddai cynhadledd gyfun dros ddau ddiwrnod yn fwy dewisol. Roedd cyfarfod Cynhadledd y DU wedi ei drefnu ar gyfer 20fed Mawrth a byddai Sean yn adrodd yn ôl.

36. Gweithredu: **Sean McHugh i hysbysu DEFRA am sefyllfa PBC ac i ddosbarthu'r penderfyniad terfynol.**

Trafodwyd amserlen a'r dewisiadau o safbwynt lleoliad ar gyfer Cynhadledd Bioamrywiaeth PBC 2009. Cynigiwyd y dyddiadau 9fed a'r 10fed Medi 2009 ym Mhrifysgol Morgannwg neu Goleg y Drindod, Caerfyrddin.

37. Gweithredu: Sean McHugh i wneud ymholiadau ym Morgannwg a Choleg y Drindod o ran y dyddiadau a ddewiswyd ac i adrodd yn ôl i PBCSG05

Papur 13 Cyfathrebiaeth PBC a gwobr ariannu cynhadledd

Amlinellodd Sean McHugh y fframwaith gyfathrebu drafft gan nodi ei bod ar y funud yn cynrychioli cynllun gweithredu ar lefel uchel, ac y byddai cyd-destun, amcanion, cynulleidfaoedd a negeseuon allweddol yn cael eu hychwanegu maes o law. Gwnaeth gais hefyd am awgrymiadau ar gyfer diwygio /gwella ac am negeseuon bioamrywiaeth allweddol oddi wrth sefydliadau sy'n bartneriaid. Diolchodd Sean i Jennifer Dack (AE) a Dusi Thomas (Dwr Cymru) am eu mewnbwn. Awgrymwyd y dylai'r Cynllun gydlynu gyda'r Comisiwn Newid Hinsawdd.

38. Gweithredu: **Diana Reynolds i anfon manylion cyswllt i Sean ar gyfer y comisiwn Newid Hinsawdd**.

Pwynt Penderfyniadau Q: Cefnogwyd y dull gweithredu.

39. Gweithredu gan bawb: Anfon awgrymiadau ar gyfer gwella a negeseuon bioamrywiaeth allweddol oddi wrth eich sefydliad i Sean McHugh (s.mchugh@welshwildlife.org)

Yna amlinellodd Sean y newidiadau a fwriedir ar gyfer gwefan yr PBC er mwyn cynnwys canlyniadau ES Cymru; y dull eco system a mabwysiadu agwedd segmentaidd yn unol â'r math o gynulleidfa. Cynigiwyd dau ddyluniad ar gyfer y wefan a gwahoddwyd sylwadau/dewisiadau. Roedd aelodau yn ffafrio'r dull 'adfywio cyflym' er mwyn cydymffurfio gyda'r paratoadau ar gyfer Wythnos Bioamrywiaeth Cymru.

Pwynt Penderfyniad R: Cafodd y camau ar gyfer ail-lunio'r wefan eu cymeradwyo.

40. Gweithredu gan bawb: Anfon sylwadau ar y dyluniad arfaethedig i Sean McHugh (s.mchugh@welshwildlife.org) erbyn Chwef. 28ain. Mae'n bosibl gweld y wefan arddangos ar: http://www. demo.wisshost.net/PBC

Yna amlinellwyd prosiectau ariannu yn dilyn y gynhadledd (Cynhadledd PBC Wrecsam 2007).

Pwynt Penderfyniad S: Cynigion a symiau ariannu wedi eu ymeradwyo ar gyfer cynhadledd 2007.
Pwynt Penderfyniad T: Cysyniad ariannol y gynhadledd wedi ei gymeradwyo ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

41. Gweithredu: Sean McHugh i gysylltu gydag arweinwyr prosiectau ac i ryddhau cyllid.

Papur 14 Arolwg cynnydd PBC

Cafodd y papur hwn ei ohirio hyd ddiwedd y cyfarfod a chwblhawyd ymarfer byr er mwyn ceisio canfod gwelliannau i'r modd y mae PBC yn gweithio ar lefel sefydliadol ac unigol. Y bwriad oedd ceisio gwella perfformiad PBC ac hefyd tanlinellu'r llwyddiant a gafwyd hyd yma.

42. Gweithredu: Bill Somerfield i gasglu ymatebion a llunio adroddiad erbyn SG6 (Tach).

Papur 15 Diweddariad rheolaidd ar droseddau bywyd gwyllt

Yng Nghymru mae dau Swyddog Troseddau Bywyd Gwyllt llawn amser wedi eu secondio i Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae Ian Guilford yn gweithio yn Ne Cymru a Rob Taylor yn y Gogledd. Mae Pete Charleston wedi ymddeol and ar y funud mae'n gweithio ar adolygu Tan 9. Hefyd mae swyddogion yr heddlu wedi eu secondio i Asiantaeth yr Amgylchedd ac i'r Comisiwn Coedwigaeth. Amlinellodd Ian fenter newydd sef 'Swyddogion Gwyrdd' ('Green Specials') lle mae heddlu ychwanegol yn cael eu hyfforddi i gynorthwyo gyda digwyddiadau yn ymwneud â throsedd yn erbyn bywyd gwyllt. Tynnwyd sylw at ddigwyddiadau o drosedd yn erbyn bywyd gwyllt a nodwyd y bwriad o gyhoeddi'r manylion amdanynt ar wefan ddiwygedig PBC.

43. Gweithredu gan bawb: Anfon manylion am ddigwyddiadau penodol o Droseddau Bywyd Gwyllt i'r ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi er mwyn eu cofnodi. (Delcie Simkin delcie.simkin@wales.gsi.gov.uk**) a bydd Delcie yn rhannu'r wybodaeth gydag Ian.**

44. Gweithredu: Sean McHugh i gynnwys adran ar Droseddau Bywyd Gwyllt ar ddiwygiedig PBC.

45. Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi i estyn gwahoddiad i Ian Guildford i gyflwyno diweddariad ar droseddau bywyd gwyllt yn rheolaidd i gyfarfodydd PBC SG. Dylai'r adroddiadau hyn gynnwys gwaith proactif ac achosion adweithiol.

Bydd y mesur drafft morol yn golygu rhagor o ddeddfwriaeth gadwraethol a gofynnwyd cwestiynau ynghylch pwy fydd yn gorfodi hyn.

46. Gweithredu: Linc i wefan ymgynghorol Pysgodfeydd y Glannau i gael ei dosbarthu a'i rhoi ar y wefan gan yr ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi.

Eitem 16: Cofnodion a chamau gweithredu

Tud. 3: Camgymeriad teipio yn enw Gweinidog – ei newid i Jane Hutt.

Cafwyd adroddiad byr ar y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol nad oedd wedi derbyn sylw eto.

Mae Cyfarwyddyd Safleoedd Bywyd Gwyllt Cymru wedi ei anfon i'r Gweinidog a gobeithir y bydd wedi ei arwyddo yn ystod y dyddiau nesaf. (Diweddariad : mae erbyn hyn wedi ei gymeradwyo)

Bydd y gwahoddiad i weinidog Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop (Jock Martin) – oedd yn methu â bod yn bresennol heddiw – yn agored iddo fod yn bresennol yn PBC SG5.

47. Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi (Delcie Simkin) i estyn gwahoddiad i Jock Martin fynychu SG05

6. Gofyniad Atodlen 4 am ddiweddaru cofrestr adar ysglyfaethus mewn caethiwed. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch ceisio cyrraedd cytundeb – bydd rhagor o fanylion yn dilyn maes o law.

Eitem 17: UFA

1. Dywedodd Diana Reynolds y bydd Rod Gritten yn gadael grŵp llywio PBC a diolchodd iddo am ei gyfraniad eithriadol dros y blynyddoedd; rhoddwyd cymeradwyaeth gynnes i Rod gan y grŵp llywio. Bydd Kate Williamson yn cymryd ei le ac yn dilyn cadarnhad oddi wrth y gweinidog, hi fydd yn cynrychioli'r Parciau Cenedlaethol.

2. Dyddiad cyfarfod PBC SG 5 fydd 15fed Gorffennaf, mewn lleoliad yn Ne Cymru.

48. Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth/tîm cefnogi i ddosbarthu manylion am ddyddiad a lleoliad SG5.
(Ddiweddariad: Cynhelir y cyfarfod ar 15fed Gorffennaf, yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd)

3. Dyddiad PBC SG06 yw 12fed Tachwedd, Swyddfeydd Cynhadledd CCGC, Maes y Ffynnon, Bangor.

49. Gweithredu: Julia Korn i archebu ystafell ac anfon y manylion i Delcie/Francis.

7. Nodwyd y cynhelir Digwyddiad Hyrwyddo Bioamrywiaeth LRC yn Aberystwyth ar 12fed Mawrth.

8. Cynhelir cyfres o gyfarfodydd adolygu Cynllun Gofodol Cymru ledled Cymru yn gynnar ym mis Mawrth; am ragor o wybodaeth neu i gofrestru, ewch i : http://new.wales.gov.uk/consultations/currentconsultation/improveps/wspconsult/?lang=en

Pwynt Penderfyniad U: Cytunodd PBC i gymeradwyo rhestr goch Plantlife o blanhigion fasgwlar yng Nghymru (dosbarthwyd ef yn ddiweddar). Roedd Trevor Dines wedi gwneud cais am beidio â dosbarthu'r rhestr y tu allan i'r PBC ar hyn o bryd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Gorffennaf 15fed, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd.